

# Mr Hwn a Hwn

“...oherwydd gennyt ti y mae'r hawl i'w brynu, a chennyf finnau wedyn.” (adn. 4)

## Beth am ddarllen Ruth 4:1–4 ac yna myfyrio

Chwaraewr pwysig arall yn y naratif yw Boas, wrth gwrs. Sut ddaeth Boas yn rhan o stori iachawdwriaeth Duw? *Drwy dderbyn cyfrifoldeb*. Perthynas cefnog i ŵr Naomi oedd Boas ac mae o'n cael ei weld fel gŵr bonheddig perffaith a chymeriad eithriadol ganddo: yn gadarn, yn onest ac unionsyth. Ystyr ei enw yw “nerth” neu “sylwedd”, ac ef yw arwr y stori. Fe gytunodd i briodi Ruth yn unol â'r arfer briodasol yn Llyfr Lefi ble roedd y perthynas gwrywaidd agosaf yn priodi gweddw dyn.

Roedd yna, fodd bynnag, un perthynas yn perthyn yn agosach i Ruth – cymeriad di-enw y bu Boas yn bargeinio ag ef. Fe lwyddodd Boas i berswadio'r dyn yma i hepgor ei hawl i briodi Ruth. Pe bai wedi dymuno fe allai Boas fod wedi gwrthod priodi Ruth heb boeni am golli ei enw da, gan fod yna ddyn arall â mwy o gyfrifoldeb nag ef. Dyma beth mae un esboniwr yn ei ddweud amdano: “Fe allai Boas fod wedi cadw at lythyren y ddeddf a chyfeirio Ruth at y perthynas agosaf, ‘Mr Hwn a Hwn’. Mae'r olygfa wrth borth y ddinas ble mae goblygiadau'r un sy'n gwaredu'r teulu hwn yn cael eu gweithio allan, yn ei gwneud hi'n amlwg y bydd Boas, ‘y dyn o sylwedd’, yn cyfiawnhau yr enw sydd ganddo.”

Yn y stori fe welwn fod Boas wedi cael cyfle i ymddwyn yn gyfrifol ac fe fachodd ar y cyfle hwnnw, nid yn unig am fod disgwyl iddo wneud hynny, ond am ei fod eisiau gwneud. Doedd o ddim yn ddyn a oedd yn fodlon byw yn ôl llythyren y ddeddf, ond yn un oedd yn edrych am ffyrdd o roi ei gyfoeth a'i safle ar waith er mwyn eraill. Yn Boas fe gawn ddyn oedd yn byw yn ôl ysbryd y ddeddf – nid ei llythyren.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math.18:21–22;

Marc 7:9–13

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd Iesu yn ei ddweud wrth Pedr mewn gwirionedd?
2. Pa berygl sydd o gael ein clymu i draddodiad?

## Gweddi

O Dad, gwared fi rhag ceisio cadw at lythyren y ddeddf heb fynd ymhellach na hynny byth. Helpa fi i edrych yn greadigol ar y ffyrdd y gallaf i roi fy holl ddoniau a galluoedd ar waith er mwyn eraill. Yn enw Iesu y gofynnaf hyn. Amen.